Mae'r newid i deledu digidol (TD) yn dod.

Byddwch yn barod ar gyfer ansawdd teledu rhagorol

Yn unol â'r gyfraith, mae'n rhaid i orsafoedd teledu ledled y wlad newid eu darlledu o "analog" i ddigidol erbyn Chwefror 17, 2009.*

Ni fydd setiau teledu sydd wedi'u cysylltu â'r rhwydweithiau teledu cebl, lloeren neu gwmni ffôn yn cael eu heffeithio ac byddant yn parhau i dderbyn rhaglenni wedi'r dyddiad hwnnw. Ond, bydd yn rhaid i setiau "analog" sydd yn derbyn eu gwasanaeth trwy antena, nad ydynt wedi eu cysylltu trwy wasanaeth teledu tâl, gael bocs trawsnewid TD er mwyn eu galluogi i barhau i dderbyn gwasanaeth teledu wedi dyddiad y newid.

* Ac eithrio gorsafoedd teledu dosbarth A a phŵer-isel.

Beth yw teledu digidol (TD)?

Mae teledu digidol yn fath newydd o dechnoleg arloesol sydd yn darlledu dros-yr-awyr mewn "bitiau" o wybodaeth, yn debyg i gyfrifiadur. Mae TD yn galluogi gorsafoedd teledu i ddarparu lluniau llawer cliriach gydag ansawdd sain llawer gwell a dewis eangach o raglenni.

Mae TD hefyd yn cynnig darlledu 'manylder uwch' (HD) ar gyfer gwylwyr gyda setiau HD gan hefyd ddarparu galluoedd rhyngweithiol a gwasanaethau data megis eglurynnau caeëdig.

Pam ein bod yn newid?

O dan deddfwriaeth a gytunwyd gan Gyngres – Y Ddeddf lleihau Diffygion 2005 – mae'n rhaid i orsafoedd teledu lleol pŵer-llawn ddiffodd eu sianeli analog ar Chwefror 17, 2009 gan barhau i ddarlledu yn gyfan gwbl trwy'r fformat digidol.

Beth yw manteision TD?

Mae TD yn fwy effeithlon o ddarlledu, ac bydd hi'n rhyddhau'r tonnau awyr ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau newydd. Mae TD hefyd yn darparu lluniau a sain o ansawdd rhagorol, mwy o sianeli ac hyd yn oed teledu 'manylder uwch' dros-yr-awyr (HDTV) am ddim ar gyfer gwylwyr â setiau teledu HD. Bydd TD hefyd yn caniatáu mwy o wasanaethau nag erioed o'r blaen gyda darlledu teledu am ddim.

Pwy fydd yn cael eu heffeithio?

Defnyddwyr sydd yn derbyn teledu am ddim trwy antena ar setiau teledu analog – nad ydynt yn tanysgrifio i gebl, lloeren neu gwmni ffôn sy'n darparu gwasanaeth teledu – fydd yn cael eu heffeithio gan y newid.

Mae o leiaf 19.6 miliwn o gartrefi yn derbyn dim ond y gwasanaeth darlledu teledu am ddim yn eu cartrefi ac mae perygl y gall tua 70 miliwn o setiau teledu golli eu gwasanaeth teledu o'r gorsafoedd teledu pŵer-llawn ar ôl Chwefror 17, 2009 os nad yw perchnogion y teledydd hyn yn eu huwchraddio.

Sut allaf newid i TD?

Gallwch newid i TD gan ddilyn un o'r tri cham canlynol erbyn Chwefror 17, 2009:

1. Bocs trawsnewid TD: Prynwch focs trawsnewid TD sydd yn cyd-fynd â'ch set deledu analog presennol. Bydd bocs trawsnewid yn eich galluogi i barhau i dderbyn gwasanaeth teledu am ddim, ac mae'r bocsys a fydd, mae'n debyg, yn costio rhwng $40 a $70 ar gael i'w prynu yn gynnar ym 2008. Y mae'r llywodraeth ffederal yn darparu talebau $40 y gallwch ddefnyddio tuag at brynu'r bocsys hyn. (Gwelwch isod am fanylion)

(Trowch drosodd)

2. Set deledu digidol: Prynwch set deledu newydd gyda thiwniwr digidol neu Pwyllgor Systemau Teledydd Datblygedig (ATSC) sy'n rhan ohono sy'n dechrau o $100. Mae pob teledu gyda thiwniwr yn gallu derbyn y gwasanaeth newydd sy'n cael ei ddarlledu gan y gorsafoedd teledu sy'n golygu y gallwch barhau i dderbyn eu rhaglenni am ddim heb unrhyw gost misol.

3. Gwasanaeth tâl: Tanysgrifiwch i gebl, lloeren neu ddarparwr gwasanaeth cwmni ffôn er mwyn parhau i ddefnyddio eich set deledu analog, os yw pob gorsaf ddarlledu leol yr ydych yn dymuno ei derbyn yn cael ei darparu gan y gwasanaeth hwnnw.

Beth yw bocs trawsnewid TD?

Mae bocs trawsnewid TD yn declyn electronig sydd yn cysylltu gyda'ch teledu analog ac yn trawsnewid y signal o ddigidol i analog, yn ei gwneud hi'n bosibl i dderbyn y gwasanaeth digidol ar eich teledu analog. Disgwylir i'r bocsys trawsnewid gostio rhwng $40 a $70.

Sut alla i gael taleb ar gyfer bocs trawsnewid TD?

Mae'r llywodraeth ffederal yn darparu talebau ar gyfer bocsys trawsnewid TD er mwyn helpu gyda'r cost o uwchraddio i ddigidol. Bydd cartrefi yn gallu ceisio am hyd at ddwy daleb gwerth $40 yr un, a fydd yn ddilys am 90 diwrnod. Am ragor o wybodaeth, neu i geisio am daleb, galwch 1 (888) DTV-2009 neu 1 (877) 530-2634 (TTY), ymwelwch â www.DTV2009.gov neu postiwch geisiadau am dalebau i PO BOX 2000, Portland, OR 97208.

A alla i gadw fy set deledu bresennol?

Gallwch, nid prynu set deledu ddigidol newydd yw'r unig opsiwn sydd gennych er mwyn trawsnewid i dderbyn teledu digidol. Os dymunwch barhau i ddefnyddio eich set deledu analog, mae'n rhaid i chi ystyried un o'r opsiynau canlynol er mwyn newid i deledu digidol:

1. Prynwch focs trawsnewid TD fydd yn newid y signal digidol newydd i'r hen fformat analog ar gyfer setiau teledu analog.

2. Tanysgrifiwch i gebl, lloeren neu ddarparwr gwasanaeth cwmni ffôn er mwyn derbyn y signal digidol newydd.

Sut ydw i'n gwybod os oes gennyf set deledu analog neu ddigidol?

I sicrhau os yw eich set deledu yn gallu derbyn y signalau darlledu digidol dros-yr-awyr, edrychwch ar lawlyfr y teledu neu ar y set ei hun am ddynodiad fod ganddo diwniwr Pwyllgor Systemau Teledydd Datblygedig (ATSC) yn rhan ohono. Gallwch hefyd ymweld â safle we cynhyrchwr y teledu, os rhowch chi gyfeirnod y set benodol honno, byddwch chi'n gallu gweld gallu'r set.

A ydy HDTV yr un peth â TD?

Nac ydy, mae TD yn deledu digidol. Mae HDTV yn deledu manylder uwch. HDTV yw fformat ansawdd mwyaf uchel TD, ond yn un o amryw fformatau yw HDTV. Mae'n bosibl y bydd defnyddwyr y mae ganddynt setiau teledu manylder uwch yn gallu derbyn rhaglenni teledu manylder uwch am ddim drwy ddefnyddio antena.

A fydd angen antena arbennig arnaf er mwyn derbyn TD dros-yr-awyr?

Bydd antena awyr agored neu dan do da yn uchafu'ch gwasanaeth TD. Yn gyffredinol, bydd gwasanaeth dibynadwy TD yn angen yr un fath o antena a ddefnyddir gennych ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da ar gyfer signalau teledu analog yn eich cartref.

Am gyngor i'ch cynorthwyo i ddewis antena awyr agored er mwyn derbyn eich sianeli teledu darlledu lleol, am ddim, ymwelwch â www.antennaweb.org

DTVANSWERS.COM

Menter Cymdeithas Genedlaethol y Darlledwyr, sy'n cynrychioli mwy na 8,300 o orsafoedd teledu a radio lleol am ddim a rhwydweithiau darlledu ar draws y wlad.